



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

22 MEDI 2017

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Testun: Argymhellion Estyn - Adroddiad Cynnydd

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Diweddarau aelodau'r Cyd-Bwyllgor ar y cynnydd o ran cyflawni'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortium Gogledd Cymru (Estyn, Ebrill 2016).

2.0 Ystyriaethau

2.1 Cynhaliwyd Arolygiad Rhanbarthol Estyn yn y bythefnos yn dechrau 18 Ebrill 2016.

2.2 Cyhoeddodd Estyn adroddiad ar eu canfyddiadau a oedd yn cynnwys y 6 argymhelliad hyn:

- **A1:** Sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion yn gwneud defnydd mwy effeithiol o weithdrefnau data, gosod targedau a thracio er mwyn herio a chefnogi ysgolion i wella perfformiad yr holl ddysgwyr ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn arbennig yng nghyfnod allweddol 4.
- **A2:** Gwella ansawdd arfarnu wrth ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion.
- **A3:** Gwella trylwyredd trefniadau ar gyfer adnabod a rheoli risg.
- **A4:** Sicrhau bod cynlluniau busnes a chynlluniau gweithredol yn cynnwys meini prawf llwyddiant clir ac y caiff cynnydd yn erbyn y rhain ei fonitro'n effeithiol.
- **A5:** Egluro rôl strategol y rhwydweithiau rhanbarthol a'u hatebolrwydd i'r Cyd-bwyllgor.
- **A6:** Datblygu fframwaith priodol er mwyn asesu gwerth am arian; sicrhau bod cynllun cyllidol tymor canolig yn cyd-fynd â'r cynllun busnes, a bod ffrydiau gwaith wedi eu priso'n llawn.

2.3 Mae Cynllun Gweithredu ôl-arolwg ar waith ac wedi'i gynnwys yn y Cynllun Busnes Rhanbarthol.

2.4 Mae'r Adroddiad Cynnydd yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn yr argymhellion.

3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

4.0 Goblygiadau Ariannol

4.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

5.0 Effaith ar Gydraddoldeb

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Goblygiadau Personél

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd

7.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE yn ystod datblygu'r ddogfen hon.

8.0 Atodiadau

8.1 Argymhellion Estyn: Adroddiad Cynnydd (Medi 2017)

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Mae'r adroddiad yn cyfarch y materion perthnasol ynghyd a'r cynydd sydd wedi ei wneud o ochr argymhellion Estyn. Bydd angen i'r Cyd-bwyllgor sicrhau fod y rhaglen waith yn parhau i gyfarch y materion hyn. Dim sylwadau eraill o ochr priodoldeb

Swyddog Cyllid Statudol:

Ble mae angen, rwyf yn parhau i gefnogi Rheolwr Gyfarwyddwr GwE wrth weithredu'r CGOA a gynhwysir yng Nghynllun Busnes Rhanbarthol GwE, gan gynnwys Argymhelliad A6 Estyn, o ran gwerth am arian a'r cynllun ariannol tymor canol.